# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL
# (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol)

## 21 Mehefin 2023

<u>Yn bresennol (Yn bersonol)</u>

Cynghorydd Steve Alderman, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd Dr SL Hancock, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd B Price, Cynghorydd M Wiggins, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

<u>Yn bresennol (O bell)</u>

Dr M Havard, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

(Parc Llanion, Doc Penfro a Rhithiol: 10.00a.m. – 10.10a.m.)

**1. Ethol Cadeirydd**

Agorodd y Prif Weithredwr y cyfarfod a dweud mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law am swydd y Cadeirydd sef y Cynghorydd D Clements.

Ar gynnig Dr R Heath-Davies, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd D Clements yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**2. Diolchiadau'r Cadeirydd**

Diolchodd y Cynghorydd Clements i'r Aelodau am ei hethol yn Gadeirydd yr Awdurdod, ac estynnodd groeso i'r Cynghorydd B Price i'r Awdurdod.

Mewn diweddariad byr o'r flwyddyn aeth heibio, cyfeiriodd y Cynghorydd Clements at yr uchafbwyntiau oedd yn cynnwys ymweliad y Tywysog Charles â Sant Gofan a mynychu angladd y Frenhines Elizabeth II. Roedd y Cadeirydd yn cydnabod bod yr angladd yn achlysur hynod o drist ac yn brofiad dwys ac yn gyfle ddaeth i'w rhan drwy fod yn Gadeirydd yr Awdurdod, ac am hynny roedd yn hynod ddiolchgar.

Eglurodd y Cynghorydd Clements bod gwell dealltwriaeth ganddi erbyn hyn o ymrwymiad ac angerdd y staff a'r gwirfoddolwyr o fewn yr Awdurdod. Diolchodd o waelod calon iddynt ar ran yr holl Aelodau ac ychwanegodd y byddai'r gwaith caled hwn yn rhoi Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro mewn gwell sefyllfa i wynebu heriau yn y dyfodol.

Yn olaf, diolchodd y Cadeirydd i Dr R Heath-Davies am bartneriaeth dda ac i'r Aelodau am eu cefnogaeth. Roedd y Cynghorydd Clements yn

cydabod eu bod weithiau yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd nad oedd bob amser yn boblogaidd. Serch hynny gwnaed y penderfyniadau hynny i ddiogelu'r Parc Cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**3. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd mai dim ond un enwebiad oedd yn weddill am swydd yr Is- Gadeirydd ar ôl i'r Cynghorydd R Owens dynnu ei enw yn ôl, sef Dr R Heath-Davies.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Mr G Jones, **PENDERFYNWYD** ethol Dr R Heath-Davies yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

Diolchodd Dr R Heath-Davies i'r Aelodau am yr anrhydedd fawr o gael ei hethol yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a chadarnhaodd y byddai'n parhau i gefnogi'r Cadeirydd ym mhob modd posibl.

**4. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd R Jordan.

**5. Datgelu buddiannau**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

**6. Aelodaeth o Bwyllgorau a Sefydliadau Allanol**

Gan gyfeirio at ei hadroddiad, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd bod llefydd gwag yn y papur a achoswyd gan ymadawiad y Cynghorydd V Thomas. Roedd y llefydd gwag hyn ar y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol ac ar y Fforwm Gweithwyr. Cadarnhaodd y Cynghorydd B Price ei bod yn hapus i lenwi'r llefydd gwag hyn.

Cadarnhaodd Dr RM Plummer y byddai Mrs J James yn cymryd ei lle ar y Fforwm Gweithwyr am y flwyddyn i ddod cyn belled â bod yr Aelodau yn cymeradwyo.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd bod Aelodau eraill wedi mynegi diddordeb mewn cyfnewid pwyllgorau. Cadarnhaodd Dr M Havard a Mr GA Jones eu bod yn dymuno cyfnewid, Dr M Havard sydd ar hyn o bryd ar y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a Mr GA Jones sydd ar hyn o bryd ar y Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

Nodwyd bydd cyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a’r Pwyllgor Apeliadau yn cael ei gadarnhau pan fyddai enwau Cadeiryddion y Pwyllgorau a’u haelodaeth yn hysbys.

Aeth y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd rhagddi yn ei hadroddiad at Gynrychiolaeth ar Sefydliadau Allanol, a dywedodd bod lle gwag ar Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cadarnhaodd y Cynghorydd D Clements y byddai'n hapus i lenwi'r lle gwag hwn, a chadarnhaodd Dr R Heath-Davies y byddai'n hapus i ddirprwyo ar ei rhan.

**PENDERFYNWYD**:

(a) cytuno ar yr aelodaeth a ganlyn ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, ei Bwyllgorau a'i Grwpiau:

**YR AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL**
Pob Aelod

**Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**
Pob Aelod

**Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** *(6 CSP, 3 LlC)*

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd | S Alderman | Dr M Havard |
| Y Cynghorydd | Mrs D Clements | Dr R Heath-Davies |
| Y Cynghorydd | M James | Mrs S Hoss |
| Y Cynghorydd | R Owens | |
| Y Cynghorydd | S Skyrme-Blackhall | |
| Y Cynghorydd | B Price | |

**Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL** *(6 CSP, 3 LlC)*

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd | Dr SL Hancock | Mrs J James |
| Y Cynghorydd | R Jordan | Mr GA Jones |
| Y Cynghorydd | PJ Morgan | Dr RM Plummer |
| Y Cynghorydd | M Wiggins | |
| Y Cynghorydd | A Wilcox | |
| Y Cynghorydd | C Williams | |

**Y PWYLLGOR ADNODDAU DYNOL** *(6 CSP, 3 LlC)*

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd | D Clements | Dr R Heath-Davies |
| Y Cynghorydd | Dr SL Hancock | Mrs J James |
| Y Cynghorydd | M James | Mr GA Jones |
| Y Cynghorydd | R Jordan | |
| Y Cynghorydd | PJ Morgan | |
| Y Cynghorydd | A Wilcox | |

**FFORWM GWEITHWYR** *(4 CSP, 2 LlC)*

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Owens | Mrs S Hoss |
| Y Cynghorydd A Wilcox | Mrs J James |
| Y Cynghorydd C Williams | |
| Y Cynghorydd B Price | |

**GRŴP GWELLIANT PARHAUS** (4 Aelod)

| |
|---|
| Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol |
| Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol |
| Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Gweithredol |
| Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu |

**PWYLLGOR CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU** *(6 CSP, 3 LlC)*

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Clements | Mrs S Hoss |
| Y Cynghorydd M James | Mrs J James |
| Y Cynghorydd R Jordan | Dr RM Plummer |
| Y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall | |
| Y Cynghorydd A Wilcox | |
| Y Cynghorydd M Wiggins | |

**Y PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY** *(4 CSP, 2 LlC)*

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Alderman | Dr M Havard |
| Y Cynghorydd Dr SL Hancock | Dr RM Plummer |
| Y Cynghorydd M James | |
| Y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall | |

**PANEL PENODI Y PWYLLGOR SAFONAU**

| |
|---|
| Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol |
| Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol |
| Y Cynghorydd S Alderman |
| Un Aelod lleyg |

**Y PWYLLGOR SAFONAU** *(2 CSP; 1 LlC ynghyd â phedwar Aelod Annibynnol)*

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Dr SL Hancock | Dr RM Plummer | Mr J Daniels |
| Y Cynghorydd M James | | Mr P Davies |
| | | Ms W Taylor |
| | | Mrs V Tomlinson |

**PWYLLGOR IEUENCTID** *(Un Aelod a enwir)*

| | |
|---|---|
| Mrs S Hoss | Y Cynghorydd R Jordan<br>Y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall<br>*(Dirprwyon)* |

**FFORWM GWIRFODDOLWYR**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M James | Y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall *(Dirprwy)* |

**PWYLLGOR GWEITHREDOL PARCIAU CENEDLAETHOL Y DU**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol | Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol *(Dirprwy)* |

**PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU**

| |
|---|
| Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol |

**CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

**Y CYNGOR**
Y Cynghorydd D Clements — Dr R Heath-Davies *(Dirprwy)*

**Y BWRDD GWEITHREDOL**
Cadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru

**CYD-GYNGOR CYMRU**
Y Cynghorydd S Alderman — Y Cynghorydd R Owens *(Dirprwy)*

**FFORWM GWLEDIG**

| |
|---|
| Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol |

**CYNGOR PARTNERIAETH CYMRU**
Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

**YMGYRCH DROS BARCIAU CENEDLAETHOL *(Un Aelod)***
Cynrychiolydd o Barciau Cenedlaethol Cymru — Dr M Havard *(Aelod Cyswllt)*

**CYNGHRAIR Y PARCIAU CENEDLAETHOL** *(Un Aelod)*
Dr M Havard

**GRŴP YMGYNGHOROL/GRŴP ARFORDIR BAE ABERTEIFI**
Y Cynghorydd M James — Dr M Havard *(Dirprwy)*

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL PORTHLADD ABERDAUGLEDDAU**
*(Un Aelod a Dirprwy)*
Y Cynghorydd R Owens — Y Cynghorydd R Jordan *(Dirprwy)*

**FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR BENFRO** *(Un Aelod)*
Y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR SAUNDERSFOOT**
Y Cynghorydd C Williams

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL COLEG SIR BENFRO**
Y Cynghorydd R Jordan

YMDDIRIEDOLAETH PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO *(Dau Aelod)*

Dr M Havard

Y Cynghorydd M Wiggins

**GRŴP CYNGHORI PARTH CADWRAETH MOROL SKOMER** *(Un Aelod)*
Y Cynghorydd P Morgan

**CROESO SIR BENFRO** *(Un Aelod)*
Y Cynghorydd Mrs D Clements

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2023 heb eu diwygio.